

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Llefaru

1. Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
2. Bydd y pwyslais ar y llefaru ac ar gyflwyno naws ac ystyr y cerddi/darnau o ryddiaith. Gellir arbrofi, os dymunir, yn ôl gweledigaeth yr hyfforddwr e.e. gellir defnyddio symud, rhannu, gwisgoedd, cerddoriaeth neu effeithiau eraill. Awgrymiadau'n unig yw'r rhestr uchod.
3. Caniateir defnyddio cerddoriaeth ond ni ddylid ychwanegu geiriau. Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth ar drac neu gerddoriaeth a chwaraeir yn fyw, sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio gweler Hunan-ddewisiad a Hawlfraint ar dudalen 10.
4. Ni chaniateir gordefnydd o iaith arall.
5. Mae'r nifer a nodir mewn grŵp yn cyfeirio at y nifer sydd yn llefaru. Caniateir aelodau ychwanegol ar gyfer cyfeiliant offerynnol yn unig. Yn y cystadlaethau i ysgolion uwchradd ac Aelwydydd, rhaid i bawb sydd yn ymddangos yn y gystadleuaeth fod o fewn yr oedran priodol. Yn y cystadlaethau sy'n benodol ar gyfer Adrannau (heb fod yn Adran Ysgol) neu ar gyfer aelodau o fewn oedran cynradd, caniateir i un cyfeilydd fod dros oedran y gystadleuaeth.
6. Rhaid i gystadleuwyr ddefnyddio'r argraffiad a nodir yn y Rhestr Testunau hwn. Ni chaniateir defnyddio argraffiad gwahanol mewn unrhyw gystadleuaeth oni nodir yn wahanol.
7. Rhaid dechrau'r perfformiad â gofod chwarae gwag. Ni chaniateir gosod offer, set na phropiau cyn i'r cystadleuwyr ddod i'r llwyfan. Ni chaniateir gadael offer ar y llwyfan ar ddiwedd y perfformiad.